



# Menter gymdeithasol yn fuddugol yn Ngwobrau Busnesau newydd Cymru

**Enillodd menter gymdeithasol a leolir yn Llandeilo, Swperbox, wobwr Menter Gymdeithasol Newydd y Flwyddyn yn ystod Gwobrau Busnesau Newydd Cymru 2021.**

Mae Swperbox yn wasanaeth pryd ar glyd sy'n creu, yn gweithgynhyrchu, ac yn dosbarthu bwyd ar draws de Cymru a gorllewin Cymru.

Cipiwyd y wobwr, a noddwyd gan CgGC, dros dri busnes arall a gyrhaeddodd y rownd derfynol yn ystod seremoni wobrwyo eleni.

Mae hyn yn cofnodi'r bennod ddiweddaraf yn nhwf menter gymdeithasol a agorodd ei drysau am y tro cyntaf y llynedd yn unig ar ddechrau'r pandemig.

Am fod cyfleoedd am waith wedi'u cyfyngu oherwydd y pandemig, penderfynodd cogyddion Alex Cook a Stuart Crichton, ddefnyddio eu harbenigedd ym maes bwyd i greu gwasanaeth dosbarthu prydiau bwyd cynaliadwy.

Ac, er gwaethaf rhwystrau cyfyngiadau'r cyfnod clo, maent wedi llwyddo i ddosbarthu dros **2,000** o focsys o ryseitiau i 200 o gwsmeriaid ffyddlon gan ddefnyddio dros 400kg o lysiau lleol a 200kg o gig lleol ers mis Mawrth 2020.

Ychwanegodd hyn hyd at **£30,000** o incwm i'w cyflenwyr wrth i'w model busnes ar sail gymunedol helpu i roi hwb ariannol i'r economi leol ar adeg pan oedd ei angen fwyaf ar fusnesau.

Er gwaethaf eu cyflawniadau cynnar, dywedodd cyd-sylfaenydd, Alex Cook, 'Nad oedd unrhyw lwybrau byr' ar eu llwybr tuag at lwyddiant, 'Cafwyd digon o waith caled a chydweithredu â mudiadau yng Nghymru ar lefel ranbarthol ac ar lefel genedlaethol gan gynnwys Canolfan Bwyd Cymru, Busnes Cymdeithasol Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, CGGC, Bwyd Araf Cymru, Rhwydwaith Bwyd Sir Gâr, a Chyngor Sir Gaerfyrddin.'

Gan benderfynu ar osod gwerthoedd cymdeithasol yn graidd eu menter fusnes, sefydlwyd Swperbox a'r nod oedd darparu bwyd iachus, lleol a chyflogaeth gynaliadwy.

I'w helpu ar hyd eu taith, derbyniwyd buddsoddiad gan y Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol (SBGF), a ariennir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru ac a weinyddir gan Fuddsoddiad Cymdeithasol Cymru yn CGGC.

Meddai Caryl Adams, CGGC, a oedd yn aelod o banel y beirniaid: 'Mae Swperbox yn cynnig cynifer o bethau sy'n creu argraff, nid yn unig am eu bod wedi cyflawni cymaint mewn amser byr, ond hefyd am eu bod wedi'i gyflawni trwy gadw'n ffyddlon at eu gwerthoedd cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod eu llwyddiant yn perthyn i'r gymuned hefyd'.

Ar adeg pan oedd ennill incwm dibynadwy a derbyn buddsoddiad yn anodd o ganlyniad i'r pandemig, dywedodd Alex am y cyllid, 'Mae'r cyllid SBGF wedi ein galluogi ni i gyflogi mwy o staff i gyflenwi cynhyrchion neu wasanaeth gwell ac i osgoi diffygion o ran refeniw.'

'Bydd y cyllid hwn yn ein galluogi ni i ddod yn hunan-gynaliadwy fel menter gymdeithasol sy'n ddichonol yn fasnachol wrth i dwf organig arwain at ganlyniadau economaidd, amgylcheddol, a chymdeithasol cynaliadwy ar gyfer ein cymuned. Mae Cronfa Cydweithredol Cymru a SBGF yn hanfodol i'r busnes hwn ac i'r 40+ o fusnesau llai yn ein cadwyn gyflenwi.'

Nid Swperbox oedd yr unig rai i ddangos effeithiolrwydd cyllid SBGF – hefyd, derbyniodd Prom Ally CIC, cwmni arall a gyrhaeddodd y rownd derfynol, gyllid trwy SBGF.

Mae Prom Ally, sef menter gymdeithasol a leolir yng Ngogledd Cymru, yn benthyg ffrogiau a siwtiau prom am ddim i blant ysgol, disgyblion chweched dosbarth, a myfyrwyr coleg na fyddai modd iddynt eu fforddio fel arall.

Ers 2015, maent wedi darparu gwisgoedd i gannoedd o ferched ifanc ac, yn ddiweddar, maent wedi dechrau darparu dillad i fechgyn yn ogystal.

## **NODIADAU I OLYGYDDION**

- Mae'r Gronfa Tyfu Busnes Cymdeithasol (SBGF) yn cefnogi busnesau cymdeithasol yng Nghymru yn ariannol i'w galluogi i dyfu ac i greu cyfleoedd swyddi. Mae SBGF wedi'i hariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Cymru ac mae'n rhan o'r ystod o fuddsoddiadau a weinyddir gan Fuddsoddiad Cymdeithasol Cymru yng Nghyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Am ragor o wybodaeth, ewch i <https://wcva.cymru/cy/cyllid/buddsoddiad-cymdeithasol-cymru/cronfa-tyfu-busnesau-cymdeithasol/>
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Rydyn ni'n bodoli er mwyn galluogi mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd.
- Sefydlwyd Gwobrau Busnesau Newydd Cymru yn 2016 i gydnabod cyflawniadau unigolion anhygoel sydd wedi cael syniad da, gweld cyfle, a chymryd y risgiau i lansio cynnyrch neu wasanaeth newydd. Bellach yn eu chweched blwyddyn, Gwobrau Busnesau Newydd Cymru yw'r unig wobrau yn y Deyrnas Unedig sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddatllu llwyddiant busnesau newydd ac sy'n cydnabod busnesau ar draws pob sector ac ar draws pob rhan o Gymru.

Er mwyn i ni hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru ac i ddiweddarau ein cysylltiadau yn y wasg ynghylch newyddion perthnasol gan CGGC, caiff eich gwybodaeth ei chofnodi ar ein cronfa ddata. Darllenwch ein [hysbysiad preifatrwydd](#), sydd ar gael ar wefan CGGC am ragor o wybodaeth am sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio, pwy sy'n gallu ei chyrchu, y sail gyfreithiol dros gadw eich gwybodaeth, a'ch hawliau o ran yr wybodaeth hon.

**Swyddfa Gofrestredig – Prif Swyddfa:** Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH (Hefyd, mae swyddfeydd yn Abergele ac Aberystwyth)

**Ffôn:** 0300 111 0124

**E-bost:** [help@wcva.cymru](mailto:help@wcva.cymru)

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru  
Elusen gofrestrdig 218093  
Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299  
Cofrestrwyd yng Nghymru

